

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir
Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30
mya) 2018**

**The A494 Trunk Road (Llanbedr
Dyffryn Clwyd, Denbighshire) (30
mph Speed Limit) Order 2018**

Gwnaed 21 Mawrth 2018

Made 21 March 2018

Yn dod i rym 26 Mawrth 2018

Coming into force 26 March 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494), in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a) and (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2018 a daw i rym ar 26 Mawrth 2018.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Denbighshire) (30 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 26 March 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494);

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 196 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Cae Glas hyd at bwynt 283 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn y Mynydd.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A494 Dolgellau – Man i'r De o Birkenhead (Llanbedr, Sir Ddinbych) (Terfynau Cyflymder 30 MYA a 40 MYA) 2005(3) wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Mawrth 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(3) O.S. 2005/3305 (Cy.257)

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494).

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road at Llanbedr Dyffryn Clwyd, Denbighshire that extends from a point 196 metres south-east of the centre-point of its junction with Lôn Cae Glas to a point 283 metres south-east of the centre-point of its junction with Lôn y Mynydd.

Revocation

4. The A494 Dolgellau – South of Birkenhead Trunk Road (Llanbedr, Denbighshire) (30 MPH and 40 MPH Speed Limits) Order 2005(3) is revoked insofar as it applies to the length of the trunk road specified in article 3.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

21 March 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

(3) S.I. 2005/3305 (W.257)

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494
(LLANBEDR DYFFRYN CLWYD, SIR
DDINBYCH) (TERFYN CYFLYMDER 30 MYA)
2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1)(a) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 26 Mawrth 2018.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya ar y darn o gefnffordd yr A494 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 196 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Cae Glas hyd at bwynt 283 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn y Mynydd. Bydd y terfyn cyflymder presennol o 40 mya ar hyd y darn hwn o'r gefnffordd yn cael ei ddirymu.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 22 Mawrth 2018 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Rhuthun, Stryd y Llys, Rhuthun LL15 1DS neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1311304.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig parhaol/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (LLANBEDR
DYFFRYN CLWYD, DENBIGHSHIRE) (30 MPH
SPEED LIMIT) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 84(1)(a) and (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 26 March 2018.

The effect of the Order is to introduce a 30 mph speed limit on the length of the A494 trunk road at Llanbedr Dyffryn Clwyd, Denbighshire that extends from a point 196 metres south-east of the centre-point of its junction with Lôn Cae Glas to a point 283 metres south-east of the centre-point of its junction with Lôn y Mynydd. The existing 40 mph speed limit along this length of the trunk road will be revoked.

During a period of 6 weeks from 22 March 2018 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Ruthin Library, Record Street, Ruthin LL15 1DS or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1311304.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government